# Adroddiad ar Raglen Frechu: Mehefin 2026

## Cefndir

Dechreuodd rhaglenni brechu Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) yng Nghymru ym mis Medi 2024[1]. Mae dwy raglen reolaidd, y naill yn cynnig brechu oedolion hŷn pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 75 oed a'r llall yn cynnig brechu menywod beichiog o 28 wythnos o feichiogrwydd (er mwyn rhoi amddiffyniad goddefol i fabanod o'u genedigaeth).

Dylai oedolion hŷn gael cynnig y brechiad RSV o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd yn 75 oed. Dylai menywod beichiog gael cynnig y brechiad RSV pan fyddant wedi cyrraedd 28 wythnos o feichiogrwydd, ond byddant yn parhau i fod yn gymwys i gael y brechiad hyd nes y byddant yn cael eu rhyddhau o'r gwasanaethau bydwreigiaeth.

Ym mis Chwefror 2025, dechreuodd ymgyrch dal i fyny ar gyfer y rhai a oedd rhwng 75 a 79 oed ar 01/09/2024. Cafodd yr ymgyrch dal i fyny untro hon ei diwygio ym mis Awst 2025 fel y byddai'r unigolion hyn yn parhau i fod yn gymwys am gyfnod amhenodol[2]. Ehangwyd y rhaglen ym mis Ebrill 2026 i gynnwys pob oedolyn 80 oed a throsodd a phob preswylydd mewn cartref gofal i oedolion hŷn[3].

Mae RSV yn achos cyffredin o heintiau anadlol acíwt yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf yng Nghymru ac mae baich yr haint a chanlyniadau difrifol ar eu huchaf ymhlith babanod, plant ifanc ac oedolion hŷn. Mae data gwyliadwriaeth heintiau RSV yn cael eu crynhoi bob wythnos yn Adroddiad wythnosol ar ffliw a heintiau anadlol acíwt, Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/adroddiad-iechyd-cyhoeddus/adroddiad-wythnosol-ar-ffliw-a-heintiau-anadlol-aciwt/

## Ffynonellau data a dulliau

Mae data brechu ar gyfer oedolion hŷn yn deillio o System Imiwneiddio Cymru, ac mae'r nifer sy'n cael eu brechu yn cael eu cyfrif yn ôl yr oedolion sy'n byw ac yn preswylio yng Nghymru ar 29/06/2026.

Amcangyfrifir y nifer sy'n cael eu brechu ar hyn o bryd ymhlith menywod beichiog gan ddefnyddio data o Set Ddata Asesiadau Cychwynnol Dangosyddion Mamolaeth Cymru, sy'n gysylltiedig â data statws brechu System Imiwneiddio Cymru. Nid yw Set Ddata Asesiadau Cychwynnol Dangosyddion Mamolaeth Cymru yn cynnwys cofnodion ar gyfer menywod yn Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd, felly amcangyfrifir y nifer sy'n cael eu brechu ar sail menywod sy'n byw yn ardaloedd chwe bwrdd iechyd arall Cymru. Cyflwynir amcangyfrifon pwynt a chyfyngau hyder 95% yn Nhabl 2.1.1.

Cyfrifir y nifer sy'n cael eu brechu yn ôl y rhai sy'n rhoi genedigaeth yn ystod y mis diweddaraf gan ddefnyddio data yn Set Ddata Genedigaethau Dangosyddion Mamolaeth Cymru, sy'n gysylltiedig â data statws brechu System Imiwneiddio Cymru. Mae Set Ddata Genedigaethau Dangosyddion Mamolaeth Cymru yn cynnwys data ar gyfer menywod sy'n byw ym mhob ardal bwrdd iechyd a chyfrifir y nifer sy'n cael eu brechu ar gyfer menywod â dyddiadau rhoi genedigaeth yn ystod y mis diweddaraf.

[1]Llywodraeth Cymru, Mehefin 2024: Cyflwyno Rhaglen Frechu RSV 2024 (WHC/2024/032): https://www.llyw.cymru/cyflwyno-rhaglen-frechu-rsv-2024-whc2024032-html
[2]https://www2.nphs.wales.nhs.uk/contacts.nsf/HealthAlerts/F417065C7886536180258CE7005833D1/$file/20250725%20-%20CMO%20Alert%20-%20RSV%20Vaccine%202025-english%20(Final).pdf (Saesneg yn unig)
[3]Llywodraeth Cymru, Chwefror 2026: Ehangu Cymhwystra ar gyfer y brechlyn rhag RSV i oedolion 80 oed a throsodd a phreswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn (WHC/2025/053): https://www.llyw.cymru/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-raglen-frechu-rsv-2026-whc2025053-html

## Pwyntiau allweddol

Ar 29/06/2026, roedd nifer y bobl gymwys yng Nghymru a gafodd y brechiad RSV fel a ganlyn:

- 57.1% o'r menywod a oedd i fod i roi genedigaeth yn ystod mis Mai 2026.
- 62.8% o'r oedolion hŷn a gyrhaeddodd 75 oed rhwng mis Medi 2024 a mis Awst 2025 (carfan brechiadau rheolaidd blwyddyn gyntaf).
- 47.5% o'r oedolion hŷn a gyrhaeddodd 75 oed rhwng mis Medi 2025 a mis Mai 2026 (carfan brechiadau rheolaidd ail flwyddyn).
- 71.8% o'r oedolion hŷn 75 i 79 oed ar 01/09/2024 (carfan dal i fyny).
- 51.4% o'r oedolion hŷn 80 oed a throsodd ar 01/09/2024.
- 65.9% o'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn.

# 1.0 Nifer sy'n cael y brechiad RSV o blith oedolion hŷn

Daw unigolion yn gymwys i gael brechiad RSV ar eu pen-blwydd yn 75 oed, felly ni fyddai pawb sydd wedi'u cynnwys yn yr enwadur ar gyfer y garfan brechiadau rheolaidd yn gymwys adeg cyhoeddi'r adroddiad.

## 1.1 Carfan brechiadau rheolaidd (Oedolion sy'n cyrraedd 75 oed ar ôl 1 Medi 2024)

**Ffigur 1.1.1 Nifer sy'n cael brechiad imiwneiddio RSV yn y boblogaeth breswyl yn ôl mis geni.**



**Tabl 1.1.1: Nifer sy'n cael brechiad imiwneiddio RSV yn y boblogaeth breswyl yn ôl mis geni.**

| Mis Geni | Isrhif | Brechu | Derbyniad (%) |
|---|---|---|---|
| Med 1949 | 2,604 | 1,732 | 66.51 |
| Hyd 1949 | 2,615 | 1,744 | 66.69 |
| Tach 1949 | 2,396 | 1,588 | 66.28 |
| Rhag 1949 | 2,528 | 1,650 | 65.27 |
| Ion 1950 | 2,686 | 1,710 | 63.66 |
| Chwe 1950 | 2,423 | 1,557 | 64.26 |
| Maw 1950 | 3,024 | 1,891 | 62.53 |
| Ebr 1950 | 2,782 | 1,715 | 61.65 |
| Mai 1950 | 2,832 | 1,778 | 62.78 |
| Meh 1950 | 2,638 | 1,595 | 60.46 |
| Gor 1950 | 2,635 | 1,546 | 58.67 |
| Awst 1950 | 2,502 | 1,393 | 55.68 |
| Med 1950 | 2,594 | 1,492 | 57.52 |
| Hyd 1950 | 2,560 | 1,421 | 55.51 |
| Tach 1950 | 2,405 | 1,332 | 55.38 |
| Rhag 1950 | 2,527 | 1,369 | 54.17 |
| Ion 1951 | 2,724 | 1,450 | 53.23 |
| Chwe 1951 | 2,530 | 1,262 | 49.88 |
| Maw 1951 | 2,911 | 1,334 | 45.83 |
| Ebr 1951 | 2,831 | 1,011 | 35.71 |
| Mai 1951 | 2,845 | 702 | 24.67 |
| Meh 1951 | 2,675 | 239 | 8.93 |

## 1.2 Carfan dal i fyny (75 i 79 oed ar 1 Medi 2024)

**Ffigur 1.2.1 Tueddiadau wythnosol o ran nifer y rhai sy'n cael brechiad imiwneiddio RSV yn y boblogaeth breswyl a oedd yn 75 i 79 oed ar 1 Medi 2024.**




## 1.3 Oedolion hŷn a oedd yn 80 oed a throsodd ar 1 Medi 2024

**Ffigur 1.3.1 Tueddiadau wythnosol o ran y nifer sy'n cael brechiad imiwneiddio RSV yn y boblogaeth breswyl a oedd yn 80 oed a throsodd ar 1 Medi 2024.**



## 1.4 Preswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn

**Ffigur 1.4.1 Tueddiadau wythnosol o ran y nifer sy'n cael brechiad imiwneiddio RSV mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn.**



# 2.0 Nifer y Menywod Beichiog sy'n Cael Brechiad RSV

## 2.1 Cwmpas y menywod sy'n cael brechiad RSV ar ôl rhoi genedigaeth

Mae data ar fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn cynnwys menywod a gofnodwyd yn set ddata rhoi genedigaeth y dangosyddion mamolaeth. Mae'r data hyn yn rhoi mesur mwy cadarn o'r cwmpas ymhlith menywod a oedd yn feichiog ac sydd wedi rhoi genedigaeth, ac maent ond yn cynnwys y menywod hynny y mae eu beichiogrwydd wedi arwain at esgor. Dim ond menywod sy'n rhoi genedigaeth yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y data hyn. Mae data brechu (fel ar 29/06/2026) wedi'u ffynonellu o System Imiwneiddio Cymru (WIS) ac wedi'u cysylltu â setiau data mamolaeth gan ddefnyddio rhif GIG y fam.

**Ffigur 2.1.1: Cwmpas brechiad RSV i fenywod sy'n rhoi genedigaeth rhwng 01/09/2024 a 31/05/2026, yn ôl mis yr esgor; Cymru.**




**Tabl 2.1.1: Cwmpas brechiad RSV i fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn ystod y 12 mis diwethaf (01/06/2025 - 31/05/2026), yn ôl mis yr esgor; Cymru.**

| Mis genydigaeth | Nifer y menywod sy'n geni | Menywod a gafodd eu brechu erbyn eu dyddiad cludo | |
|---|---|---|---|
| | | n | % |
| Meh 2025 | 1,898 | 906 | 47.7 |
| Gor 2025 | 1,979 | 993 | 50.2 |
| Awst 2025 | 1,875 | 994 | 53.0 |
| Med 2025 | 2,011 | 1,177 | 58.5 |
| Hyd 2025 | 2,047 | 1,239 | 60.5 |
| Tach 2025 | 1,854 | 1,084 | 58.5 |
| Rhag 2025 | 1,973 | 1,172 | 59.4 |
| Ion 2026 | 1,979 | 1,133 | 57.3 |
| Chwe 2026 | 1,715 | 1,042 | 60.8 |
| Maw 2026 | 1,831 | 1,083 | 59.1 |
| Ebr 2026 | 1,732 | 922 | 53.2 |
| Mai 2026 | 1,702 | 972 | 57.1 |